



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 24 Chwefror 2018, Llanbedr Pont Steffan

2018.01 Addoli Agoriadol

Yn ystod ein haddoli agoriadol, darllenwyd Cynghorion a Holiadau rhif 7 yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2018.02 Y Tîm Clercio:

Cytunir y dylai Catherine James, clerc cynorthwyol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (CyC yng Nghymru) weithredu fel clerc i'r Cyfarfod nes cael hyd i gyd-glerc. Bydd Jill Evans, Cyfarfod Ardal De Cymru (CADC) yn gweithredu fel cyd-glerc am y diwrnod.

2018.03 Y rheini sy'n bresennol heddiw

Rydym yn croesawu 29 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresennoldeb. Y cynrychiolwyr o'r Cyfarfodydd Ardal yw:

Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru (CACC): Medi James

Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru (CAGC): Ros Morley (yn adrodd), Frank Brown (wedi'i rwystro), Martin Hughes

Cyfarfod Ardal Gororau'r De (CAGD): Stevie Kraye

Cyfarfod Ardal De Cymru (CADC): Lyn Moseley

Ein henaduriaid heddiw yw: Deborah Rowlands a Julia Aspden

Ein cyfieithydd heddiw yw: Steffan Wiliam

2018.04 Calon a *The Friend*

Bydd Medi James CACC yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i Calon, a bydd Frances Voelcker CAGC yn ysgrifennu i *The Friend*.

2018.05 Cofnodion i'w nodi rhwng cyfarfodydd:

- a) **Adroddiad i'r Cyfarfod Dioddefiadau** Gan fod clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi'i rwystro, cyflwynodd Gethin Evans y cyntaf o'r hyn fydd yn adroddiadau blynyddol i'r Cyfarfod Dioddefiadau ar 2 Rhagfyr 2017. Cafodd yr adroddiad dderbyniad da iawn; mae cofnod MfS 17.12.16 a anfonwyd atom yn cofnodi'r gwerthfawrogiad hwn. (Y cofnod wedi'i atodi).
- b) **Cyngor Cynrychioladol Quaker Life (CCQL)** Mae'r trefniad sefydledig (ond sydd heb ei gofnodi i'w weld) rhwng CyC yng Nghymru a CACC y byddant yn rhannu cost cynrychiolydd i CCQL yn parhau ar gyfer y tair blynedd 2017-20. Bydd y cynrychiolydd hwnnw'n adrodd ar wahân ac yn flynyddol o leiaf wrth Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan gynrychioli Cyfeillion yng Nghymru mewn unrhyw fewnbwn y mae CyC yng Nghymru efallai am ei gyflwyno.

2018.06 Enwebiadau a phenodiadau

a) Penodiadau rhwng cyfarfodydd

- Daeth yr Is-grŵp Enwebiadau sy'n chwilio am rywun i gymryd lle Kate Robertson yn syth ar y Pwyllgor Enwebiadau ag enw Jeff Beatty (CAGD) gerbron. Mae wedi'i benodi i wasanaethu am y cyfnod o 9.11.2017 hyd at 31.12.2019.
- Mae Angela Ormrod wedi'i hailbenodi gan CACC fel cynrychiolydd Cyngor Cynrychioladol Quaker Life (CCQL) am y tair blynedd 2017-2020 a bydd hefyd yn parhau yn y rôl honno i CyC yng Nghymru tan 31.12.2020.
- Penodwyd Theresa Haine (Cwrdd Llambod) i fynychu seremoni orseddu John Davies, Archesgob Anglicanaidd newydd Cymru yn Aberhonddu 2 Rhagfyr 2017 gan gynrychioli'r Crynwyr yng Nghymru.
- Mae CADC wedi dwyn enw Janet Rees gerbron CyC yng Nghymru i fod yn gydlynnydd Cyfeillion sy'n gwirfoddoli yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst 2018.
- Mae CAGD wedi dwyn enw Jeff Beatty gerbron CyC yng Nghymru i fod yn gydlynnydd Cyfeillion sy'n gwirfoddoli yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf 2018.

b) Enwebiadau sydd wedi'u dwyn gerbron

Golygydd i Calon: Ros Morley CAGC o 01.01.2018 hyd at 31.12.2020

Ymddiriedolwraig: Deborah Rowlands CADC o 30 Mehefin 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2020

Ymddiriedolwr Cytun: Gethin Evans CACC Mehefin 2018 – Mehefin 2021

Cynrychiolydd y Cyfarfod Dioddefiadau: Gethin Evans CACC (ail dair blynedd)

Clerc y Grŵp Ffocws: Rhan o gofnod o'r grŵp ffocws: 'Argymhellwn i'n rhiant-gorff fod Peter Hussey CAGD yn cael ei benodi'n Clerc o 1 Mawrth 2018.'

A'r enwebiadau hyn yn dderbyniol, fe'u penodwyd.

c) Enwebiadau a geisir

- Cynrychiolydd i Bwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyngffydd y Crynwyr Mai 2018 – Mai 2021
- Cyd-glerc i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019.
- Cyd-glerc i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2020.
- Pedwar Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau, yn syth a hyd at 31.12.2020 (neu efallai y bydd gwahanol ddyddiadau gorffen yn bosibl)
- Aelod o'r Grŵp Ffocws i wasanaethu'n syth

2018.07 Cyfarfod y Clerc Cofnodi â chlercod yr Alban, Cymru, Cyfarfod Blynnyddol Prydain a'r Cyfarfod Dioddefiadau

Mynychodd Catherine James, y clerch cynorthwyol, y cyfarfod hwn yn Inverness ar ran CyC yng Nghymru. Mynychodd y Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban ar y dydd Sadwrn a bu cyfarfod ar y bore Sul i drafod y berthynas rhwng Cyfarfod Blynnyddol Prydain a chenedloedd Prydain. Bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddrafftio ac yn dod i CyC yng Nghymru yn y man. Mae polisi ynglŷn â'r Gymraeg, i'w gynnwys yn y memorandwm, wedi'i ddrafftio gan ein Grŵp Ffocws (gweler isod). Cydnabuwyd gan y grŵp y dylai polisi iaith ffurfio rhan o'r memorandwm hwnnw.

2018.08 Y Grŵp Ffocws: Polisi'r Gymraeg

Rydym wedi derbyn y drafft ar gyfer polisi'r Gymraeg gan y Grŵp Ffocws. Mae wedi'i gylchredeg drwy e-bost ac mae ar gael mewn print yn y cyfarfod hwn. Mae Cyfeillion wedi cael cyfle i wneud

sylwadau heddiw; mae'r sylwadau hyn wedi'u nodi. Diolchwn i'r Grŵp Ffocws am eu gwaith gan ofyn i'r clerc gymryd y mater yn ei flaen fel y gall CyC yng Nghymru gydweithio â'r Clerc Cofnodi i gyrraedd cytundeb er mwyn iddo ddod yn rhan o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

2018.09 Datganiad Tablaidd Cyfarfod Blynnyddol Prydain

O ganlyniad i gofnod CyC yng Nghymru 2017.43, rydym wedi derbyn ymateb gan y clerc cofnodi yn awgrymu y dylai datganiad tablaidd CBP gynnwys nifer y Cyfeillion ar restrau aelodaeth CADC, CACC, CAGC a chyrddau CAGD yng Nghymru. Diolchwn i'r Clerc Cofnodi am ei ymateb gan dderbyn ei awgrym fel un digon da am y tro ond yn gofyn bod Croesoswallt hefyd yn cael ei gynnwys. Rhaid i ni wybod niferoedd ein haelodau gan ein bod ni fel CyC yng Nghymru'n cael ein hariannu'n rhannol drwy gwota a seilir ar nifer aelodau CyC yng Nghymru yn ôl y diffiniad yn *Quaker Faith & Practice* 5.04/5.05. Teimlwn ei bod yn bwysig i CBP gydnabod mai tair cenedl sy'n ei ffurfio. Dychwelwn i'r mater hwn.

2018.10 Cofnod gan y Grŵp Ffocws: Cyfeiriad a Llywodraethu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i'r Dyfodol

Yn dilyn cofnod 2017.45 "Llwybr CyC yng Nghymru i'r Dyfodol", rydym wedi derbyn cofnod 6/18 gan ein Grŵp Ffocws (wedi'i atodi). Cytunwn â'u hawgrym i gael grŵp i weithio ar faterion llywodraethu a gofyn i glerc yr ymddiriedolwyr gynnull cyfarfod i'r ymddiriedolwyr ynghyd ag aelodau'r Grŵp Ffocws i fynd â'r mater hwn yn ei flaen.

2018.11 Eiddo yng Nghymru

Mewn ymateb i'r adroddiad gan gyfarfod Clercod Cymru a Chyfarfodydd Ardal ac Ymddiriedolwyr (Cofnod CyC yng Nghymru 2017.44), rydym wedi derbyn cofnod gan CADC a CACC, cofnod 27/17, ynghyd â chofnod gan ymddiriedolwyr GC. Mae'r rhain yn mynegi rhywfaint o ddiddordeb mewn edrych ymhellach ar fater cydweithio ar eiddo'r Crynwyr yng Nghymru. Rydym yn disgwyl ymateb gan CAGD. Gofynnwn i ymddiriedolwyr CyC yng Nghymru ystyried yr ymatebion hyn a dweud wrthym beth yw eu barn mewn cyfarfod diweddarach.

2018.12 Gwaith yng Nghymru: Arian i Fadagasgar

Mae Theresa Haine (DC) wedi sôn wrthym am waith Arian i Fadagasgar, elusen a sefydlwyd ym 1986 gan Barbara Prys-Williams gyda chefnogaeth Cwrdd Abertawe sy'n darparu help sydd ei ddifrifwr angen ar dlodion y wlad honno drwy godi arian sy'n galluogi pobl Madagasgar i ddatblygu eu prosiectau eu hunain. Mae'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud wedi creu argraff aruthrol arnom.

2018.13 Y Wefan

Mae'r gwaith ar gofrestru ac enw parth i'r wefan newydd wedi'i gwblhau. Rhaid i gynnwys a diwyg y wefan newydd adlewyrchu'r datblygiadau a awgrymir gan y Grŵp Ffocws.

2018.14 Disgrifiad o rôl y clercod a chynrychiolydd y grŵp laser

Mae'r rôl-ddisgrifiadau diweddaraf i dîm clerciaeth CyC yng Nghymru a chynrychiolydd y Cyfarfod gyda grŵp laser Cytûn wedi'u dosbarthu drwy e-bost ac maent wedi bod ar gael dros amser cinio. Rydym wedi derbyn y rhain. Fe'u hatodir i'r cofnodion.

2018.15 Tystiolaeth i Ras Duw ym Mywyd David Binney

Rydym wedi derbyn tystiolaeth i Ras Duw ym mywyd David Binney. Mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn anfon y dystiolaeth hon ymlaen at Gyfarfod Blynyddol Prydain gan gydnabod mai i fywyd ysbryd CBP yn ei grynsyth yn ogystal â CyC yng Nghymru y bu ei gyfraniad.

2018.16 'Yr Eiliad, yr Awr a'r Twll yn y To'.

Mae Huw Meredydd Owen, CAGC, wedi agor ein meddyliau a'n heneidiau drwy'i ddarlith sy'n sôn am ein hymdeimlad a'n cysylltiad â'r Ysbryd. Diolchwn iddo am ein harwain i ddyfnder ei ddealltwriaeth o fod yn agored i'r Ysbryd a'r ffyrdd y gallwn ninnau hefyd fod yn fwy agored.

2018.17 Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol

Jane Harries (CADC) yw ein darlithydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni, a'i thestun yw: 'Treftadaeth a thystiolaeth heddwch, ddoe a heddiw'. Bydd yn darlithio mewn ystafell yn y Senedd yng Nghaerdydd. Dyma'r olaf o'r tair darlith rydym wedi eu trefnu ar gyfer y Genedlaethol. Trafodwn yn 2020 os ydym am gael cylch arall o ddarlithoedd.

2018.18 Gŵyl y Gelli

Mae Gill Sewell wedi gofyn am fwy o wirfoddolwyr i staffio stondin y Crynwyr ac mae ffurflenni cais ar gael yn y cyfarfod hwn ac ar wefan CBP. Mae Ros Morley wedi cynhyrchu deunyddiau dwyieithog newydd, gan gynnwys y map newydd, ar gyfer y digwyddiad hwn y gellir eu defnyddio hefyd yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

2018.19 Y Gyllideb:

Mae Martin Hughes, ein trysorydd, yn dweud wrthym fod ymddiriedolwyr CBP wedi cytuno i'n cais am gyllid pellach i CyC yng Nghymru gan gydnabod bod ein rôl erbyn hyn yn fwy nag yr oedd pan gytunwyd ar y grant yn wreiddiol. Diolchwn iddynt am hyn a gofynnwn i Gyfarfodydd Ardal anfon £5.25 yr aelod i CyC yng Nghymru, yr un swm â'r llynedd.

2018. 20 Adroddiadau:

Rydym wedi derbyn yr adroddiadau bywiog a diddorol canlynol sydd wedi'u dosbarthu drwy'r rhestr e-bostio ac sydd ar gael heddiw mewn print.

a) gan Christine Trevett: Hydref 2017 Coffáu'r Diwygiad

b) gan Theresa Haine: gorseddu Archesgob Anglicanaidd newydd Cymru

c) gan Deborah Rowlands: Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

d) gan David Harries: y grŵp laser (Cyfarfod Swyddogion Eglwys a Chymdeithas yng Nghymru)

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i ni gefnogi menter Llywodraeth Cymru i gael gwared ag amddiffyniad cosbedigaeth resymol mewn cyfraith droseddol. Dymunwn wneud cyflwyniad i Gynulliad Cymru gan ofyn i Stevie Kraye weithio gyda Jessica Metherringham i lunio hwn. Rydym yn seilio ein cefnogaeth i'r mesur hwn ar ein tystiolaeth Heddwch, ein tystiolaeth i gydraddoldeb a'n gwaith mewn ysgolion (er enghraifft, y Prosiect Ysgolion Heddychlon) ymhlith agweddau eraill ar ein tystiolaeth ysbrydol.

e) gan Alan Clark: adfer ein harchifau
Diolchwn iddynt am eu gwasanaeth.

Llofnodwyd

Catherine James

Clerc ar yr adeg hon

Jill Evans

Cyd-glerc ar yr adeg hon.